Adroddiad Cynulliad Cymunedol Dyffryn Nantlle ar yr Hinsawdd 1

Gan Grug Muse, Prif Hwylusydd Dyffryn Nantlle



Crynodeb

Ar nos Fawrth a nos Fercher, Mehefin 14 ac 15 daeth bron i hanner cant o drigolion Dyffryn Nantlle ynghyd yng Nghanolfan y Fron i ddechrau ateb y cwestiwn 'Beth all Dyffryn Nantlle wneud mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd'.

Amcanion y cynulliad cyntaf oedd:


- Cyfle i aelodau gyfarfod a dod i nabod eu gilydd a darganfod tir cyffredin.
- Sefydlu egwyddorion sut i gael sgwrs dda, er mwyn sicrhau fod trafodaethau a sgyrsiau'r cynulliad yn rhai cyfoethog a chynhyrchiol.
- Casglu darlun o brofiadau aelodau'r cynulliad o newid hinsawdd, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio ein bywydau a'n cymunedau.
- Meddwl am beth ydym ni ei angen yn ein cymunedau i fyw bywydau llawn yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd.
    - Meddwl beth sydd yn ein cymunedau yn barod sy'n ateb y gofynion hyn.
    - Cychwyn meddwl am beth sydd ar goll o'n cymunedau ar hyn o bryd.


Diwrnod 1

Pryderon a Gobeithion

Dechreuwyd y cynulliad cyntaf gyda'r cyfle i holl aelodau'r cynulliad rannu eu pryderon a'u gobeithion am y broses. Roedd nifer o'r gobeithion yn mynegi dyhead am weld y cynulliad yn arwain at newidiadau go iawn yn lleol; gobaith am gyfle i ddysgu, a gweithredu gyda'n gilydd fel cymuned, ac i wneud newidiadau cynaliadwy i leihau effaith newid hinsawdd.

Roedd llawer o'r pryderon yn ymwneud a gallu'r cynulliad i weithredu, gyda phryderon am ddiffyg cefnogaeth, diffyg arian, am 'siop siarad' arall, ac yn y pendraw fod dim byd yn newid.





Sut mae cael sgwrs dda?

Yna cafwyd trafodaethau ar be sy'n gwneud sgwrs dda - sut mae sgwrs dda yn gwneud i ni deimlo, neu ba egwyddorion a ddylid cadw atyn nhw er mwyn sicrhau sgyrsiau da. Cafodd pob grŵp gyfle i adrodd eu prif bwyntiau yn ôl, a dyma restr o'r argymhellion a gafwyd:

- Dylai sgwrs dda deimlo fel dawns rhwng pobl sy'n gyfartal
- Dylid annog holl aelodau'r grŵp i gymryd rhan
- Gofyn barn pawb, a gwerthfawrogi eu hymateb
- Peidio mynd ar 'tangents' – cadw at y pwynt
- Hwyl a hiwmor!
- Symud i fan twfnach o'r galon wrth drafod

- Mae sgwrs dda yn cynnwys trafod, gwrando ac awgrymu
- Dylid gwrando er mwyn deall, ac nid er mwyn ymateb.
- Bydd y rhai sy'n sgwrsio yn rhannu diddordebau a dyheadau tebyg.
- Defnyddio iaith hawdd i'w ddeall
- Medru dweud eich bod chi'n anghytuno heb gael eich saethu i lawr
- Parchu pob barn a safbwynt er mwyn cael y canlyniad gorau
- Creu gofod cyfforddus i bawb
- Cyfle i ddysgu ac addysgu
- Ymddiried yn eich gilydd a theimlo'n saff
- Bod yn gynhwysol – gwrando ar bob llais
- Bod yn barod i ofyn am eglurhad.
- Dewch gydag empathi, angerdd a pharch
- Parchu anghenion pawb, gan gynnwys pobl sydd efo anghenion cyfathrebu gwahanol
- Bod yn agored eich meddwl, i'ch hunain, i'r sefyllfa, a chymryd cyfrifoldeb
- Teimlo fel eich bod chi'n cael eich clywed a bod rhywbeth yn cael ei gyflawni
- Pwyll biau hi.
- Ymddiried pobl eraill, a pheidio gwthio eich pwnc neu agenda.

Beth yw ein profiadau o newid hinsawdd yma yn Dyffryn Nantlle?

Ar ôl swper, aed ati i rannu ein profiadau o newid hinsawdd a'r argyfwng natur. Naill ai newidiadau yma yn Nyffryn Nantlle neu ymhellach draw, a phrofiadau personol, emosiynol, feddyliol neu amgylcheddol. Roedd hyn er mwyn creu darlun ar y cyd o sut mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar ein bywydau ni yma, ond hefyd y tu hwnt i'r ardal hon.

Cafwyd anerchiad gan Mari Huws i ddechrau, sef warden ar Ynys Enlli a gwneuthurwraig rhaglenni dogfen o Benygroes, yn trafod ei phrofiadau o newid hinsawdd yn Indonesia, yr Arctig a Chymru. (Sgwrs i'w gwylio yma: https://www.gwyrddni.cymru/dyffryn-nantlle/)



Wedyn cafwyd trafodaeth mewn grwpiau, ac aed ati i gasglu pwyntiau a phrofiadau gan yr holl grwpiau trafod. Dyma restr o'r profiadau a gasglwyd gan yr ystafell:

- Llai o eira cyson ar y Carneddau yn y 60 mlynedd diwethaf.
- Llai o fywyd gwyllt, o ran niferoedd ac amrywiaeth
- Mwy o law a llifogydd, a thywydd eithafol
- Llai o wahaniaeth rhwng y tymhorau. Haf yn dod yn y gwanwyn.
- Teimlo euogrwydd carbon, a hynny'n achosi newid mewn ymddygiad.
- Anoddach i dyfu pethau yn yr ardd oherwydd pridd sych a gwyntoedd cryfion.
- Barddoniaeth o'r gorffennol yn teimlo'n amherthnasol
- Erydiad ar yr arfordir, er enghraifft bryngaer hynafol Dinas Dinlle yn syrthio i'r môr.
- Ymwybyddiaeth o'r ffaith ein bod ni'n le bach mewn byd mawr.
- Llosgi eithin ar y mynydd yn mynd allan o reolaeth yn amlach.
- Ffenestri blaen ceir ddim yn llawn pryfaid yn yr haf, fel oedden nhw yn y gorffennol
- Ansefydlogrwydd y tymhorau yn effeithio ar blanhigion a bywyd gwyllt
- Gwynt yn gryfach, a difrod yn fwy disgwyliedig ond hefyd yn fwy difrifol.
- Gwynt yn chwythu o'r gogledd ddwyrain yn amlach erbyn hyn, yn hytrach nag o'r gorllewin, gan effeithio'r coed.
- Mwy o sbwriel a llygredd dynol i'w weld ymhobman
- Tywydd mwyn yn arwain at fwy o dwristiaid, sy'n cyfrannu at heriau dylanwad dynol ar y tirlun.
- Afiechydon fel Clefyd yr Onn yn lladd coed – y golled yn un emosiynol.
- Diffyg rhew, sydd ei angen er mwyn lladd afiechydon
- Poen meddwl sy'n cael ei achosi gan y cyfryngau
- Llai o dyfiant ar yr arfordir, ac effaith ar fywyd môr
- Anghyfartaledd ariannol yn golygu mai pobl efo mwy o arian all fforddio'r 'dewis gwyrdd' fel ceir trydan
- Digwyddiadau tywydd dramatig, fel cenllysg peli golff yng Nghricieth.
- Ein cymunedau'n llai gwydn oherwydd natur yr economi, a thuedd i feio unigolion am broblemau systemig
- Ffoaduriaid amgylcheddol yn cyrraedd.
- Mae pobl yn dod at ein gilydd i wneud pethau positif ynghanol elfennau negyddol
- Mae Covid wedi dangos fod modd i ni gael effaith o hyd. Er bod mwy yn teithio ar eu pen eu hunain ers covid, bu lleihad am gyfnod mewn nitrus oxide a gronynnau eraill yn ystod y clo.
- Pobl wedi 'arfer' efo newidiadau, a ddim yn ymateb yn gryf i newyddion amgylcheddol gwael neu eithafol.

Diwrnod 2

Ein Cymuned fel Cartref

Dydd Mercher, aed ati i feddwl am yr anghenion sydd gennym ni yn ein cymuned, beth sydd yma yn barod i'w hateb, a beth sydd ar goll, a hynny yng nghyd-destun newid hinsawdd.

Cafwyd cyflwyniad gan Eluned, Cydlynydd Trafnidiaeth Gymunedol yr Orsaf, a Gwenllian, eu Swyddog Dim Gwastraff i sôn am y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Yr Orsaf gan Siop Griffiths sydd eisoes yn gwasanaethu'r gymuned ac yn ein helpu i leihau neu ymateb i effaith newid hinsawdd (Sgwrs i'w gwylio yma: https://www.gwyrddni.cymru/dyffryn-nantlle/).





Yna, trwy ddefnyddio trosiad y 'tŷ', aed ati i feddwl am beth yw ein hanghenion ni fel cymuned, gan feddwl am ein cymuned fel cyfres o ystafelloedd sy'n cynnig gwahanol bethau i ni. Cafwyd enghreifftiau o bob math o ystafelloedd posib, ond dewisodd

aelodau'r cynulliad archwilio 6 stafell benodol ymhellach, sef 'Ystafell Tyfu Madarch', 'Stydi', 'Stiwdio', 'Ystafell Gweiddi a Gollwng Stêm', 'Ytafell Ymlacio a Myfyrio' a'r 'Llyfrgell'.

Gofynnwyd i aelodau'r cynulliad ddychmygu beth sy'n digwydd yn yr ystafelloedd hynny, a beth maen nhw'n eu cynnig i'r bobl sy'n byw yn y tŷ.

Yna, ystyriwyd beth sydd yn y gymuned yn barod sy'n ateb y gofynion hyn, ac yna, beth sydd ar goll.

Mae pob stafell felly yn cynrychioli rhai o'r pethau yr ydym angen gan ein cymuned, ac enghreifftiau lleol sy'n ateb y gofynion hynny, ynghyd ac awgrymiadau o beth sydd ar goll. Dyma grynodeb o'r trafodaethau a gafwyd am yr ystafelloedd, gan restru eu pwrpas i ni yn y gymuned, beth sydd yma yn Nyffryn Nantlle yn barod, ac yna beth sydd ar goll.

Enw ystafell: Ystafell Tyfu Madarch

Beth yw pwrpas yr ystafell?

Tyfu ar gyfer bwyd, moddion, gwenwyn, papur, plastig.

Beth sydd yn Dyffryn Nantlle yn barod sy'n ateb y gofynion hyn?

- Rhandiroedd yn Groeslon a Phlas Silyn, Gardd Wyllt Penygroes.
- Unedau busnes gwag allai gael eu defnyddio
- Cyflenwyr bwyd fel Madarch Eryri, Snowdonia Botanicals, Ffarm Trigonos, Fferm Henbant, Pant Du, Clwb Garddio'r Orsaf, Stad Cwm Silyn coed ffrwythau, a gerddi preifat.
- Sgiliau tyfu gan y cyflenwyr uchod, hefyd sgiliau eraill fel sgiliau gwneud papur, gwirfoddolwyr, rhwydwaith busnesau bach, ffermwyr, siopwyr.
- Gofod gwyrdd fel coetiroedd, ymylon gwyrdd, y môr, ac adnoddau naturiol.
- OLIO foodshare ap
- GwyrddNi

Beth sydd ddim yma eto, ond sydd ei angen er mwyn ateb y gofynion hyn?

- Marchnad fwyd ar gyfer cynnyrch lleol.
- Mwy o dir ar gyfer garddwriaeth a chnydau, a llai o bori
- Coedwig neu berllan gymunedol
- Datblygu sgiliau a chyngor ar ddefnyddio ffwngws
- Cyfarpar arbenigol
- Addysg mewn meddyginiaeth draddodiadol, a chasglu llysiau a ffrwythau'r perthi.
- Mwy o egni adnewyddadwy, neu garbon isel
- Mwy o wrychoedd
- Pwynt cyfnewid gwybodaeth.

Enw ystafell: Y Stydi

Beth yw pwrpas yr ystafell?

Ymchwilio, hel, cael trefn, rhannu gwybodaeth er mwyn dysgu, datblygu, ysbrydoli ac i ddatblygu a hynny hunan grymuso yn y gymuned.

Beth sydd yn Dyffryn Nantlle yn barod sy'n ateb y gofynion hyn?

- Yr Orsaf, Coleg Glynllifon, Ysgolion, Mantell Gwynedd, Llyfrgell, Prifysgol Bangor
- Gwybodaeth y gymuned, ac unigolion o fewn y gymuned
- Lleu
- Caffi trawsnewid
- Canolfan grefft
- Grwpiau ar y cyfryngau cymdeithasol
- Hubs cymunedol
- Gwinllan
- Canolfan Hamdden
- Rhywfaint o fynediad i'r we.
- Canolfannau cyfathrebu fel ysgolion, doctor, coop.

Beth sydd ddim yma eto, ond sydd ei angen er mwyn ateb y gofynion hyn?

- Mwy o gysylltu rhwng unigolion a grwpiau bychan, gyda gweddill y gymuned.
- Mwy o ofod gwaith i'w rannu
- Gwell cyngor gyrfaol
- Mwy o addysg ar lefel gymunedol
- Mwy o ymwybyddiaeth o bethau sy'n cael eu gwneud yn barod
- Platfform y gall y gymuned i gyd gyfrannu iddo
- Gwell cysylltiad gwe (falle mewn gofod wedi ei rannu, fel y llyfrgelloedd)



Enw ystafell: Stiwdio

Beth yw pwrpas yr ystafell?

Galluogi, datblygu a hwyluso. Hyrwyddo Creadigrwydd.

Beth sydd yn Dyffryn Nantlle yn barod sy'n ateb y gofynion hyn?

- Tirwedd a natur
- Clybiau drama a neuaddau.
- Eisteddfodau
- Technoleg a wifi
- Stiwdio Sain
- Ysgolion, Trigonos, Coleg Glynllifon, Yr Orsaf, Henbant, Canolfan y Fron
- Pobl.

Beth sydd ddim yma eto, ond sydd ei angen er mwyn ateb y gofynion hyn?

- Mwy o gyllid
- Technoleg
- Adnoddau
- Hwyluso ac anogaeth
- Cyd-weithio a chyd-drefnu
- Marchnata a chyfathrebu
- Caniatâd ac ewyllys
- Angerdd a chymhelliant.



Enw ystafell: Ystafell Gweiddi a Gollwng Stêm.

Beth yw pwrpas yr ystafell?

Llesiant Emosiynol: Rhannu a 'gollwng' ar y cyd (cyfathrebu)

Beth sydd yn Dyffryn Nantlle yn barod sy'n ateb y gofynion hyn?

- Cefn gwlad, gardd wyllt, Cadair 'Cwin'
- Clybiau 'martial arts'
- Corau a bandiau pres
- Caeau pêl-droed
- Parc Beics
- Eisteddfodau
- Capeli
- Canolfannau cymunedol
- Protestiadau
- Streiciau

Beth sydd ddim yma eto, ond sydd ei angen er mwyn ateb y gofynion hyn?

- Help i ddefnyddio adnoddau – cyflwyniad
- Cael gwared a rhwystrau fel tlodi, trafnidiaeth, ac eithrio digidol trwy wifi cymunedol
- Rhannu dysgu (gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau)
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad
- Sicrhau strwythur cymunedol



Enw ystafell: Ystafell Ymlacio a Myfyrio

Beth yw pwrpas yr ystafell?

Ein caniatáu i fod yn fwy gwydn. Lle i ddod at ein gilydd, cydweithio, a rhannu (boed syniadau neu bethau) a gwerthfawrogi ein gilydd.

Beth sydd yn Dyffryn Nantlle yn barod sy'n ateb y gofynion hyn?

- Yr Orsaf
- Y tirlun – yr olygfa o Fron!
- Llwybrau cerdded a beicio
- Eglwysi, capeli, cymdeithasau gwirfoddol, neuaddau a chanolfannau cymunedol.
- Cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Beth sydd ddim yma eto, ond sydd ei angen er mwyn ateb y gofynion hyn?

- Gofod lle allwn ni ddod at ein gilydd
- Cerdded o gwmpas a siarad efo'n gilydd.
- Rhwydwaith o hybs cymunedol – un ymhob cymuned
- Ailadeiladu'r cysylltiadau y mae'r byd modern wedi eu torri
- Adfer isadeiledd cymunedol – llawer o bentrefi heb ganolfannau ar hyn o bryd.



Enw ystafell: Y Llyfrgell
Beth yw pwrpas yr ystafell? Lle i ddysgu, rhannu adnoddau a gwybodaeth.
Beth sydd yn Dyffryn Nantlle yn barod sy'n ateb y gofynion hyn? • Gwersi Celf, cwiltio a gwnïo • Llyfrgell, Canolfan Bro Lleu (ar y ffordd), Caffi'r Orsaf a Neuaddau cymunedol • Llwybr Ystlumod • Grwpiau Facebook • Eisteddfod • Llyfrgell y pethau a Fan lyfrgell • Tawelwch a heddwch • Ysgolion • Lleu
Beth sydd ddim yma eto, ond sydd ei angen er mwyn ateb y gofynion hyn? • Mwy o heddwch a thawelwch • Cymuned fwy clos • Gwersi fin nos • Gardd Gymunedol • Gwefan Gymunedol • Sgyrsiau ar hanes a bywyd gwyllt lleol • Swapshop • Llyfrgell o ficro-organebau ar gyfer bara surdoes.



(Cwmwl Geiriau o'r prif bethau roedd aelodau'r Cynulliad yn tynnu sylw atyn nhw fel adnoddau pwysig sydd yma'n barod, wedi creu efo'r ymatebion uchod)

Cloi

Wrth gloi, holwyd ambell gwestiwn arall i aelodau'r cynulliad. Roedd cyfle i fynegi barn am pryd y dylid cynnal y sesiwn nesaf, ac i rannu unrhyw adnoddau neu awgrymiadau gydag aelodau eraill y cynulliad.

Sesiwn nesaf:

Cafwyd dewis rhwng dau opsiwn ar gyfer y sesiwn nesaf, sef un dydd Sadwrn am 6 awr, neu dau fin nos o 3 awr yr un. Dau fin nos oedd y dewis mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda 4 eisiau un dydd Sadwrn, a 24 wedi pleidleisio dros ddau fin nos.

Tips ac Argymhellion

Dyma rai o'r tips ac argymhellion a rannwyd gan aelodau'r cynulliad:

- Gwersi Cymraeg yn yr Orsaf o Fis Medi Ymlaen
- Ymgyrch yr RHS am arddio mewn ysgolion - https://schoolgardening.rhs.org.uk/home
- 'Tro ar Fyd' gan Derec Brown
- Clwb Dysgwyr Tŷ'n Llan, Llandwrog dydd lau olaf pob mis - https://tynllan.cymru/whats-on/?lang=en
- Say Something in Welsh wedi eu sefydlu yn Dyffryn Nantlle - falle bydde posib trefnu digwyddiad cymunedol i ddysgwyr?



Diolch, a welwn ni chi ar gyfer cynulliad 2 yn mis Medi!

